# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones a R.Meirion Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Neb |

---

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim wedi eu derbyn.

2 **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2019.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni ym Mharagraff 12A y Ddeddf honno."**

4 **APWYNTIO STAFF**

**Cyfarwyddwr Lle a Lleisiant Cymunedol**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Hysbysebu swydd y Cyfarwyddwr Lle a Lleisiant Cymunedol yn allanol ac yn fewnol ar yr un pryd am gyfnod o dair wythnos o 13 Ionawr, 2020 gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn unig;**
- **Rhoi trefniadau dros dro yn eu lle ar gyfer rheoli cyfadran fawr tra mae'r broses recriwtio'n mynd rhagddi drwy hysbysebu am Bennaeth Gwasanaeth dros dro a swyddog arall i fod yn gyfrifol am 'Gynllunio Lle.'.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**